# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Medi 2025

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Hybrid

### Rhag-gyfarfod preifat

09:00-09:15

### Cyfarfod cyhoeddus

09:15-11:40

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09:15

### 2 Craffu blynyddol gyda chyrff hyd braich: Sesiwn dystiolaeth gyda Chwaraeon Cymru

09:15-10:30 (Tudalennau 1 - 17)

Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd, Chwaraeon Cymru

Graham Williams, Cyfarwyddwr Gwybodaeth am Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau, Chwaraeon Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Chwaraeon Cymru

### Egwyl

10:30-10:40

### 3 Craffu blynyddol gyda chyrff hyd braich: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

10:40-11:40 (Tudalennau 18 - 37)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Christopher Catling, Prif Weithredwr, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Hayley Roberts, Dirprwy Gadeirydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Dogfennau atodol:**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Papur tystiolaeth

Briff ymchwil - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

11:40

### 4.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 38 - 39)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 - 16 Medi 2025

### 4.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalen 40)

**Dogfennau atodol:**

Copi o lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn hysbysu am gyhoeddi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF - 16 Medi 2025

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

11:40

## Cyfarfod preifat

11:40-13:00

## 6 Craffu blynyddol gyda chyrff hyd braich – trafod y dystiolaeth a gafwyd

11:40-11:55

## Egwyl

11:55-12:00

## 7 Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Sesiwn friffio dechnegol

12:00-12:45

Chloë Davies, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Jackie Price, Arweinydd y Tim Bil Milgwn, Llywodraeth Cymru

James Morris, Hwylusydd y Bil, Llywodraeth Cymru

Kate Frawley, Arweinydd Polisi, Llywodraeth Cymru

Elizabeth Thomas, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

## 8 Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Dull o graffu

12:45-12:55 (Tudalennau 41 - 56)

**Dogfennau atodol:**

Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Papur dull o graffu

Llythyr gan Brif Weithredwr Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ynghylch sicrhau bod y Bil Milgwn drafft yn destun diwydrwydd dyladwy a gwaith craffu priodol - 15 Medi 2025 (Saesneg yn unig)

## 9 Ymgynghoriad Fforwm y Cadeiryddion ar Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd - Trafod yr ymateb ddrafft i'r ymgynghoriad

12:55-13:00 (Tudalennau 57 - 58)

**Dogfennau atodol:**

Ymgynghoriad Fforwm y Cadeiryddion ar Adolygu Effeithlonrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd- Ymateb ddrafft i'r ymgynghoriad (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

**Cofnodi amgylchedd hanesyddol Cymru ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod**

Mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) ddwy brif ddyletswydd fel y nodir yn ei Warant Frenhinol: llunio rhestr o'r adeiladau, y safleoedd archaeolegol, y tirweddau a’r dreftadaeth forol sy'n ffurfio amgylchedd hanesyddol Cymru; a chynnal Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) a sicrhau ei fod ar gael i ddefnyddwyr.

Heddiw, mae'r dasg o lunio’r rhestr yn canolbwyntio'n bennaf ar wneud cofnod o adeiladau a safleoedd arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac yn nyfroedd arfordirol Cymru, sydd mewn perygl o gael eu colli oherwydd ailddatblygu neu newid hinsawdd – yn fwyaf diweddar, mannau addoli, ysgolion a sefydliadau addysgol, adeiladau dinesig, llyfrgelloedd, neuaddau tref a llysoedd barn, theatrau a chanolfannau hamdden a threftadaeth arfordirol a morol sydd dan fygythiad oherwydd effeithiau cyrydu ac erydu newid hinsawdd.

Mae CBHC yn ymgynghorai statudol ym mhroses rheoli datblygu Cymru, sy'n golygu bod llywodraethau cenedlaethol a lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi cyngor ar geisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig lle mae hyn yn cynnwys dymchwel adeiladau rhestredig yn rhannol neu'n gyfan gwbl, a chyflwyno sylwadau ar brosiectau seilwaith cenedlaethol, gan gynnwys ceisiadau am drwyddedau morol.

Mae CHCC, ynghyd ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn un o dri chasgliad cenedlaethol Cymru. Mae'n lleoliad statudol ar gyfer cyflwyno o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac yn Archif Achrededig, yn ddarostyngedig i safonau cadwraeth a mynediad cyhoeddus sy’n cael eu pennu a’u monitro gan yr Archifau Cenedlaethol. Mae CHCC yn adnodd a ddefnyddir yn helaeth gan swyddogion llywodraeth leol a chenedlaethol, yn enwedig fel rhan o’r system gynllunio.

Rydym yn cyfnewid data gyda deiliaid cofnodion eraill ac yn darparu mynegai i ddata o ffynonellau eraill. Rydym yn chwarae rhan allweddol wrth sefydlu a chynnal safonau cenedlaethol mewn arolygu, cofnodi a churadu cofnodion sy'n ymwneud ag archaeoleg a phensaernïaeth hanesyddol a rhoi canllawiau ar y materion hyn i gyrff eraill. Rydym yn gyfrifol am oruchwylio'r Cofnodion Safleoedd a Henebion statudol a reolir gan Heneb. Yn ogystal, rydym yn llunio'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol statudol ar ran Llywodraeth Cymru ac yn hyrwyddo ei defnydd ar gyfer enwi datblygiadau newydd yng Nghymru.

Mae'r amrywiol fyrddau a phaneli cynghori yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol yr ydym yn aelodau ohonynt yn gofyn am ein harbenigedd, gan gynnwys Fforwm Treftadaeth yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Fforwm Digidol 4Culture, Rhwydwaith Archaeoleg Ddiwydiannol y DU, Fforwm Mannau Addoli Hanesyddol Cymru, y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, y Grŵp Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol, Grŵp Treftadaeth Cymru, y Panel Archifau Pensaernïol, Menter Treftadaeth Leol Cymru, Grŵp Llywio Fframwaith Ymchwil Archaeolegol Cymru, Grŵp Rheoli

Casgliad y Werin Cymru, a Grŵp Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Yn ogystal, rydym yn ymgymryd â rhaglen helaeth o waith allgymorth ac ymgysylltu cymunedol, sy'n cynnwys prosiectau sylweddol (fel ein gwaith Treftadaeth Asiaidd Cymru a'n prosiect bryngaer Pendinas), yn ogystal â darlithoedd, teithiau tywys, cyhoeddiadau a symposia (fel ein cynhadledd mapiau hanesyddol flynyddol, CartoCymru, a gynhelir yn flynyddol gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru) a ffrwd reolaidd o flogiau, postiadau ar gyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau cynnydd.

Wrth fodloni'r gofynion a nodir yn y Warant Frenhinol, rydym hefyd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymraeg 2050.

Roeddem hefyd yn rhan weithredol o ddatblygu'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant. Mae'r ddogfen ddrafft hon, yr ymgynghorwyd â ni yn ei chylch yn ystod y cyfnod hwn, yn nodi tair blaenoriaeth:

1. Mae diwylliant yn dod â ni at ein gilydd
2. Cenedl o ddiwylliant
3. Mae diwylliant yn wydn ac yn gynaliadwy

Byddwn yn ymgorffori'r ddogfen hon yn ein hadroddiadau yn y dyfodol drwy ddangos sut mae ein gwaith yn cefnogi'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau terfynol.

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn**

Yn ystod 2024-25, cwblhaodd staff y Comisiwn Brenhinol y canlynol:

- Ymweld â 54 o safleoedd arfordirol neu rynglanwol i wirio eu cyflwr a chreu cofnodion llinell sylfaen digidol 3D ar gyfer 40 ohonynt
- Diweddaru'r cofnodion ar gyfer 56 o longddrylliadau rhynglanwol yn dilyn ymweliadau safle, gyda 33 o safleoedd yn elwa o arolygon digidol 3D bellach
- Ychwanegu 157 o safleoedd llongddrylliadau at y CHCC
- Ymateb i 70 o ymgynghoriadau trwyddedau morol ffurfiol a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru
- Creu modelau SketchFab newydd, gan ddod â'r cyfanswm sydd ar gael ar dudalen CBHC i bron i 200
- Ymgymryd â 24 awr a 45 munud o waith arolygu o'r awyr i gofnodi tystiolaeth o safleoedd archaeolegol claddedig a chynnal arolygon cyflwr mewn rhannau anodd eu cyrraedd o Gymru
- Nodi gwersyll gorymdeithio Rhufeinig newydd 19.7 hectar ar Fryn Gardiners, yng ngogledd orllewin ardal hyfforddi filwrol Pontsenni ym Mhowys, gyda hyn yn dystiolaeth o ddefnydd milwrol o'r ardal ryw 2,000 o flynyddoedd yn ôl

- Cynnal casgliad llawn o gofnodi, gan gynnwys sganio laser, ffotogrametreg a ffotograffiaeth, yng Nghapel Newydd, yn Nanhoron a Chapel Jeriwsalem, Bethesda, y ddau yng Ngwynedd.
- Chwarae rhan yn y gwaith o restru tri adeilad ym Mhrifysgol Aberystwyth yn llwyddiannus – Canolfan y Celfyddydau (Gradd II*), Llyfrgell Hugh Owen (Gradd II) a'r Clochdy (Gradd II) a Waterworld yn Wrecsam (Gradd II)
- Creu 17,790 o gofnodion catalog archif newydd a gwneud 18,112 o gofnodion archif digidol ar gael yn uniongyrchol i'r cyhoedd drwy Coflein
- Digideiddio 33,182 o dudalennau ffeiliau safle yn CHCC i greu ffeiliau o ansawdd uchel sydd bellach ar gael i ddefnyddwyr Coflein
- Cofnodi 4,256,777 o ryngweithiadau defnyddwyr ar Coflein
- Ychwanegu 869 o gofnodion safle newydd at CHCC a diweddaru 4,632 o gofnodion
- Ychwanegu bron i 4,000 o enwau lleoedd hanesyddol at y Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol
- Ateb 2,538 o ymholiadau, gan arwain at fwy na 6,692 o drafodion ac at adalw ac edrych ar fwy na 1,502 o archifau copi caled
- Croesawu pedwar ar ddeg o ymweliadau grŵp i'n Llyfrgell a'n Hystafell Chwilio, cyfanswm o fwy na 300 o ymwelwyr
- Sganio 7,598 o dudalennau o ffeiliau cofrestredig yn ymwneud â Henebion Rhestredig diolch i waith caled saith gwirfoddolwr
- Cyfanswm o 385 o oriau o wirfoddoli gan 10 gwirfoddolwr Llyfrgell
- Ymgysylltu â mwy na 3,000 o drigolion lleol o bob oed fel rhan o brosiect Bryngaer Pendinas
- Cyhoeddi Darganfod Bryngaer Pendinas / Discovering Pendinas Hillfort a dosbarthwyd copïau i ysgolion lleol; wedi'i lawrlwytho 313 o weithiau yn ystod 2024-25, profodd hwn i fod yn gyhoeddiad mwyaf poblogaidd CBHC eleni
- Cwblhau gwerthusiad annibynnol gan yr ymgynghorwyr Wavehill a ddisgrifiodd brosiect Pendinas fel un 'rhagorol'; cafodd y prosiect Ganmoliaeth Uchel hefyd yng Ngwobrau Cyflawniad Archaeolegol Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA) 2024 yn y categori Ymgysylltu a Chyfranogiad
- Cynnal arddangosfa yn y Senedd i nodi diwedd Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru, gan ddenu 6,440 o ymwelwyr – record ar gyfer unrhyw arddangosfa yn y Senedd; cafwyd cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r prosiect ar ffurf gwobr i arweinydd y prosiect Perminder Dhillon, a dderbyniodd Wobr Cydraddoldeb a Chynhwysiant gan Gyngor Hil Cymru
- Dosbarthu 2,504 o gyhoeddiadau ar ffurf 892 o eLyfrau a 1,612 o gyfrolau wedi'u hargraffu
- Derbyn dwy wobr fawr gan Gymdeithas Hanesyddol y Rheilffyrdd a'r Camlesi am ein cyhoeddiad yn 2023, Camlas Abertawe a'i Rheilffyrdd Cynnar: Llyfr Hanes Trafnidiaeth y Flwyddyn a Llyfr Camlesi a Dyfrffyrdd y Flwyddyn

- Cyrraedd mwy nag 844,000 o ddefnyddwyr drwy Facebook, ein prif sianel allgymorth, ac fe wnaeth ein sianel YouTube dderbyn mwy na 20,000 o ymweliadau, gan gynhyrchu mwy na 1,000 o oriau o amser gwylio
- Cyflwyno rhaglen eang o 92 o ddigwyddiadau cyhoeddus, gan gyrraedd cyfanswm o 11,791 o fynychwyr.

## Defnydd o staff

Mae CBHC yn dîm bychan ond hynod gynhyrchiol ac mae nifer o staff yn ymgymryd â sawl rôl. Mae ein staff presennol yn cynnwys 20.5 o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n ymgymryd â gwaith craidd CBHC.

- Mae chwech yn gweithio ym maes arolygu a chofnodi maes, gan gynnwys arbenigwyr mewn ffotograffiaeth o'r awyr, treftadaeth forol a geomateg, gyda phob un ohonynt yr unig berson yn sector treftadaeth Cymru sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Mae'r tîm hwn hefyd yn arwain y sector mewn addasu i newid hinsawdd, cofnodi cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd a gweithgarwch cadwraeth a chyflawni rôl CBHC fel ymgynghorai statudol o fewn y drefn gynllunio, gan ddarparu cyngor ar Ganiatâd Adeiladau Rhestredig, ceisiadau cyfadran eglwysig a thrwyddedau morol.
- Mae pedwar yn ymwneud â gwaith allgymorth, gan gwmpasu ein system gyflawni ddigidol Coflein ar gyfer mynediad at ddaliadau CHCC (y gellir lawrlwytho nifer cynyddol ohonynt bellach ar sail hunanwasanaeth) yn ogystal â bod yn gyfrifol am bennu safonau cadw cofnodion y sector a monitro gwaith yr HERs, ond hefyd am drefnu ein digwyddiadau, darlithoedd, postiadau cyfryngau cymdeithasol, gwaith addysgol, ein cyfraniad at Gasgliad y Werin Cymru, a'n cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.
- Mae dwy swydd lawn amser ac un swydd ran amser yn ymwneud â rheoli'r Archif, catalogio cofnodion sy’n cael eu cyflwyno i CHCC, digideiddio daliadau'r Archif a'u gwneud ar gael, ac ar gyfer cadwraeth ddigidol.
- Mae dau yn rhedeg y gwasanaeth Llyfrgell ac Ymholiadau prysur iawn, gan ateb ymholiadau dros y ffôn, ar-lein, ar e-bost ac wyneb yn wyneb, a gweinyddu trwyddedau hawlfraint ac atgynhyrchu delweddau, rheoli gwirfoddolwyr a chynnal y nifer o grwpiau sy'n dod am daith gyflwyniadol o amgylch casgliadau CHCC.
- Mae'r Ysgrifennydd yn arwain yr uwch dîm rheoli ac mae dwy swydd yn ategu gwaith CBHC drwy ddarparu'r seilwaith TGCh a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau Seibrddiogelwch. Mae un swydd lawn amser ac un swydd ran amser yn darparu gwasanaethau rheoli ariannol, cyflogres, pensiwn a chaffael a thaliadau anfonebau, yn ogystal â rheoli cyfleusterau a chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol. Mae un swydd yn gyfrifol am ein gwaith ymchwil, codi arian a cheisiadau am gyllid allanol, yn ogystal ag am ddatblygu Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol CBHC.

- Mae un swydd yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru i lunio a hyrwyddo'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

**Adroddiad ariannol**

Yn ystod y flwyddyn 2024-25, bu gostyngiad o 10.5 y cant yn ein cyllid refeniw craidd gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, ac yn dilyn ymgynghori ag undeb llafur Prospect, fe wnaethom benderfynu lansio rhaglen o ddiswyddo gwirfoddol a arweiniodd at bum aelod o staff yn gadael y Comisiwn. Symudodd tri aelod arall o staff ymlaen i swyddi newydd mewn mannau eraill, a chafodd eu swyddi eu hatal dros dro, gan aros am adolygiad o'r berthynas rhwng CBHC a Cadw, gan gynnwys uno posibl (rhoddir rhagor o fanylion yn Adroddiad Blynyddol 2025-26).

O ganlyniad, cytunodd sawl aelod o staff i ymgymryd â gwaith ychwanegol dros dro ac ailstrwythurwyd CBHC yn ddwy adran, gyda staff y tîm Llyfrgell, Ymholiadau ac Archif a'r tîm Arolygon ac Ymchwilio yn adrodd i Gareth Edwards, y Pennaeth Gwybodaeth a Dealltwriaeth, a'r tîm Busnes Corfforaethol a'r tîm Ar-lein ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn adrodd i'r Ysgrifennydd.

Cafodd yr arian a arbedwyd o atal y swyddi, ynghyd â chyllid y flwyddyn olaf o dan y cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ei ategu gan swm Cyllid Lliniaru am flwyddyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu'r Comisiwn i addasu i ostyngiad mewn staffio. Gyda'i gilydd, galluogodd y cyllid hwn ni i gyflogi staff ar gontractau tymor byr i gefnogi'r tîm Llyfrgell ac Ymholiadau, i ymgymryd â gwaith ariannol a gweinyddol, i ymgymryd â gwella data Coflein ac i ymgymryd â digideiddio er mwyn sicrhau bod ein ffeiliau safle a ddefnyddir yn aml ar gael ar-lein ar sail hunanwasanaeth. Felly, roedd modd i ni gyflogi graddedigion diweddar o ardal Aberystwyth a rhoi cyfle gwerthfawr iddynt ennill profiad gwaith yn y sector treftadaeth ac archifau.

Wedi hynny, drwy grant cyllid cyfalaf wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi gallu ymgymryd â'r gwaith digideiddio a chadwraeth ffotograffig o'r awyr y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler 'Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru'). Yn ogystal, mae ein cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru wedi ein galluogi i fuddsoddi yn yr offer sganio laser newydd sy'n hanfodol ar gyfer gwaith cofnodi maes effeithlon a manwl gywir, ac i gadw ein hoffer TG yn gyfredol.

Rydym yn parhau i dderbyn grant arbennig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd statudol i ymchwilio a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd hanesyddol ac fe wnaethom lwyddo i sicrhau grant o gronfa Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru Llywodraeth Cymru ar gyfer ein prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru. Daeth symiau ychwanegol o'n cyfraniad at raglen Casgliad y Werin Cymru, ein cyfranogiad yn y gwaith Dyfroedd Di-lwybr a gyllidwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i ddod â chofnodion treftadaeth forol pedair gwlad y DU at ei gilydd i

safon gyffredin, ac o'n cyfran o grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect ymgysylltu cymunedol Pendinas. Hefyd cawsom grant bach ar gyfer ein celf ym mhrosiect MOWLIT (Mapio'r Orymdaith: Cymru a Lloegr Ganoloesol, tua 1282), a gyllidwyd gan gynllun Gwarant Horizon UKRI.

Bydd cyflogau'n ffurfio'r rhan fwyaf o'n gwariant bob amser, a dyma pam mae toriadau cyllid yn cael cymaint o effaith ar gapasiti ein staff. Mae'r costau rhedeg yn cynnwys costau sylweddol capasiti TGCh (gan gynnwys costau storio a chostau wrth gefn, trwyddedau meddalwedd, costau Seibrddiogelwch ac ymgynghoriaeth), y mae sefydliad sy'n drwm ar ddata'n ddibynnol arno ar gyfer ei waith.

**Cyllid / Funding £000**


| | | |
|---|---|---|
| Cyllid net gan Lywodraeth Cymru / Core funding from Welsh Government | | 1,556 |
| Cyllid Cytundeb Cydweithredu Llywodraeth Cymru / Welsh Government Co-Operation Agreement Funding | | 100 |
| Cyllid Lliniaru Llywodraeth Cymru / Welsh Government Mitigation Funding | | 147 |
| Grantiau allanol / External grants: | | |
| | Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru / Historic Place Names of Wales | 60 |
| | Treftadaeth Asiaidd Cymru / Welsh Asian Heritage | 139 |
| Incwm Prosiect / Project Income: | | |
| | Casgliad y Werin Cymru - People's Collection Wales | 42 |
| | Dyfroedd Di-lwybr / Unpath'd Waters | 6 |
| | Pendinas | 47 |
| | MOWLIT | 6 |
| Incwm a enillwyd / Earned income | | 22 |
| Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru /Welsh Government capital funding: | | 110 |
| | Digideiddio Ffotograffiaeth o'r Awyr / Aerial Photography Digitisation | 49 |
| Cyfanswm / Total | | 2,284 |


**Gwariant Fesul Prif Bennawd Cost / Expenditure by Major Cost Head £000**


| | | £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau - Salaries | | 1,551 |
| Costau Rhedeg - Running Costs: | | 341 |
| | Darpariaeth Ddigidol - Digital Delivery | 132 |
| | Teithio a Chynhaliaeth - Travel and Subsistence | 37 |
| Cyfalaf - Capital: | | 106 |
| | Digideiddio Ffotograffiaeth o'r Awyr / Aerial Photography Digitisation | 49 |
| Cyfanswm / Total | | 2,216 |

**Incwm a Enillwyd / Earned Income £000**

| | £000 |
|---|---|
| Gwerthiant Llyfrau - Book Sales | 8 |
| Archrediad MEDIN - MEDIN Accrediation | 5 |
| Gwasanaethau CHCC - NMR Services | 7 |
| Breindaliadau - Royalties | 2 |
| | |
| Cyfanswm / Total | 22 |




Incwm a Enillwyd / Earned Income £000
Gwerthiant Llyfrau - Book Sales
Archrediad MEDIN - MEDIN Accrediation
Gwasanaethau CHCC - NMR Services
Breindaliadau - Royalties

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cyfeiriad e-bost: SeneddCyllid@Senedd.Cymru

11 Medi 2025

Annwyl Bwyllgor,

**Cyf: Galwad am wybodaeth – cynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

Yn ei ddatganiad i'r Pwyllgor Llawn ar 1 Gorffennaf, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y byddai'r gyllideb ddrafft yn "ailddatgan i'r flwyddyn ariannol nesaf y gyllideb sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda chynlluniau gwariant eleni yn cael eu bwrw ymlaen a'u cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig."

Mae bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i geisio sefydlogrwydd am 2026-27 a rhoi lle i lywodraeth nesaf Cymru osod blaenoriaethau a pholisïau newydd yn rhesymol a rhesymegol. Mae'r Coleg wedi paratoi cynigion manifesto ar gyfer etholiad 2026, gan alw ar lywodraeth nesaf Cymru i osod dau nod:



CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn llwybrau Cymraeg a dwyieithog drwy'r system addysg gyfan, a'r sector trydyddol yn arbennig.
- Cynyddu'r nifer sy'n gallu ac yn dewis gweithio'n ddwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg.

Ein dymuniad ar gyfer y cyfnod tu hwnt i 2026-27 fyddai gweld y llywodraeth nesaf yn blaenoriaethu ac yn ariannu'r chwe chynnig polisi yn ein maniffesto.

Yn y cyfamser, gyda'r galwadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn uwch nag erioed, mae'n ddealladwy mai cynnydd yn unol â chwyddiant sy'n cael ei gynnig ar gyfer cynlluniau gwariant 2026-27. Fel y nodwyd yn nigwyddiad ymgysylltu'r Pwyllgor ym Mangor, mae sicrwydd a chysondeb yn allweddol i sefydliadau fel y Coleg allu cynllunio gwariant yn effeithiol. Hyderwn felly y bydd adrannau'r llywodraeth yn gweithredu yn unol â'r egwyddor a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch "sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i'n gwasanaethau cyhoeddus a'n hetholwyr".

Hyderwn bydd cynnwys y llythyr hwn o fudd wrth i'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 fynd rhagddo. Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Gwenllian Griffiths, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Coleg, ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,

Ioan Matthews

**Dr Ioan Matthews**
**Prif Weithredwr**

# Eitem 4.2

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Medi 2025

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fod Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi'i gyhoeddi ar 11Medi 2025. Mae'r Memorandwm hwn yn disodli'r un blaenorol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Memorandwm yn disgrifio'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i ymrwymiad y Partïon ar y cyd i leihau aildroseddu yng Nghymru, a'r gydnabyddiaeth barhaus mai'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n arwain at gyflogaeth gynaliadwy yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau aildroseddu. Mae'r Memorandwm yn cynnwys rhaglenni dysgu a sgiliau yn y ddalfa, ac yn nodi sut y dylid symud ymlaen â dysgu i droseddwyr yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon